Matriciwleiddio

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd uwchraddedig, ac eithrio'r rhai sydd eisoes yn raddedigion o Brifysgol Aberystwyth, fatriciwleiddio cyn cael eu derbyn ar gyfer astudiaethau uwchraddedig. Er mwyn matriciwleiddio, rhaid i ymgeiswyr:

1 a. Feddu ar radd israddedig o sefydliad a gydnabyddir gan PA. Os nad yw ymgeiswyr wedi cwblhau eu gradd ar adeg y cais, caiff hyn ei gynnwys fel un o amodau unrhyw gynnig a wneir. Bydd angen copi o'r dystysgrif a thrawsgrifiad gradd fel prawf o statws graddedig er mwyn cwblhau'r broses derbyn myfyrwyr a chofrestru fel myfyriwr wedyn.

neu

1 b. Gall y rhai nad ydynt yn raddedigion sydd ag o leiaf 24 mis o brofiad proffesiynol perthnasol fatriciwleiddio ar gyfer cyrsiau Meistr (ond nid rhaglenni PhD a TAR) ar sail y profiad hwn. Bydd matriciwleiddio heb radd yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Detholydd Uwchraddedig adrannol perthnasol cyn i gynnig amodol gael ei wneud.

2. Y prif adnodd ar gyfer gwerthuso cymwysterau y tu allan i'r DU yw UK NARIC. Caiff lefel y cymhwyster a'r gydnabyddiaeth o'r Sefydliad Addysgu Uwch sy'n dyfarnu eu gwirio. Mae'r cymariaethau gradd a ddefnyddir gan Brifysgol Aberystwyth yn deillio o wybodaeth NARIC ar y cyd â gwybodaeth a ddefnyddir gan Sefydliadau Addysg Uwch eraill. Gweler: https://www.aber.ac.uk/cy/postgrad/apply/comparability/

Gweler hefyd: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/app-qual/#graduates